O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2708 (Cy. 292)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Ffordd Ymuno tua'r Gogledd wrth Gyffordd 3, Ffordd Osgoi Wrecsam, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed	*10 Tachwedd 2011*
Yn dod i rym	*21 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Ffordd Ymuno tua'r Gogledd wrth Gyffordd 3, Ffordd Osgoi Wrecsam, Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd cefnffordd yr A483 wrth Gyffordd 3 ar Ffordd Osgoi Wrecsam.